

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Ifor Jones (Nantglyn) nos Nadolig, tad annwyl i Dilwyn, Geraint a Merfyn. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu oll yn eu profedigaeth a gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn. Trist oeddem hefyd o glywed am farwolaeth Mrs Kate Owen (Cefn Meiriadog) ddechrau'r flwyddyn hon a hynny mor fuan ar ôl iddi gollu ei mab, Emyr. Cydymdeimlwn yn arbennig â Meirion a gweddiill y teulu a gweddiwn y byddant eto yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Berwyn Evans (Llansannan) ym marwolaeth ei frawd, Alun, a chyflwynwn ef a'r teulu oll i ofal a thangnefedd Duw. Cofiwn eraill o'n plith sy'n galaru am anwyliaid hefyd a gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.
- Mae sawl un o'n haelodau naill ai yn parhau yr ysbyty neu wedi bod yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cofiwn yn arbennig am Gwyn Jones (Peniel) sydd bellach wedi dod yn ôl o Ysbyty Walton i Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Gwyneth Rawson (Llanfair) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Cofiwn hefyd am Wil Williams (Llanfair) a Tomos Wynne (Llansannan) fu yn yr ysbyty cyn y Nadolig, a Gethin Williams ac Osian Jones (Groes) dreuliodd y Nadolig yn Ysbyty Glan Clwyd ond diolchwn eu bod hwythau hefyd wedi cael dod adref yr wythnos hon. Dymunwn wellhad buan iawn i bob un ohonynt.
- Anfonwn ein cofion at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal –Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Miss W J Roberts a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Gwenllian Jones, Henllan (Plas Gwyn); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Gweddiwn ar i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni y flwyddyn hon eto.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elen Morris (Nantglyn) a James Nichols ar achlysur eu priodas ddydd Mawrth diwethaf. Bendithion lu iddynt i'r dyfodol.
- Llongyfarchiadau hefyd i Elen Roberts (Llansannan) ac Alwyn Roberts ar eu dyweddiad.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Ioan 2:15-17 (BCND tud.264 / BCN tud.242)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7^{fed} Ionawr 2018

Darlleniad y Dydd

Salm 102:25-28

(BCND tud.549 / BCN tud.501)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr Llais Bro Aled ar Sul cyntaf 2018! Wrth i ni roi'r addurniadau i'w cadw am flwyddyn arall, beth am ddechrau gan roi diolch i Dduw am ei ddaioni a'i ffyddlondeb dros y flwyddyn aeth heibio? Ac wrth edrych ymlaen, beth am wneud hynny'n ddisgwyllgar gan fod y Beibl yn cyfeirio at Dduw fel 'yr un sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu, trwy'r gallu sydd ar waith ynom ni.' (Effesiaid 3:20). Gweddiwn felly ar i'r Arglwydd weithio ynom, a'n bendithio trwy agor ein llygaid er mwyn i ni ryfeddu o'r newydd at fawredd ei ras a'i gariad tuag atom yng Nghrist.

Tybed faint ohonoch a gafodd ddillad fel anrhegion Nadolig? Maent yn parhau i fod yn anrhegion poblogaidd a defnyddiol, nid am fod pawb yn cymryd dilêit mewn ffasiwn, ond oherwydd bod dillad yn hwyr neu'n hwyrach yn tueddu i wisgo neu fod yn ddiffygiol. Gallwn ddweud yr un fath am gymaint o bethau yn ein byd ni – ceir, cyfrifiaduron, hyd yn oed cartrefi. Y drefn arferol yw bod yna newid er gwaeth neu angen adnewyddu arnynt dros amser. Ar ddiwedd Salm 102, sef ein darlleniad ar gyfer heddiw, mae'r Salmydd yn ystyried y patrwm hwn. Rydym yn byw mewn creadigaeth lle mae pethau'n ymddangos ac yna'n darfod, lle mae newid yn digwydd yn gyson – a hynny'n aml yn achosi problemau a phoen i ni. Ond mae'r Salmydd yn gweld hyn oll ochr yn ochr â phwy yw'r Creawdwr. Er bod y nefoedd a'r ddaear yn cael ei newid fel gwisg, mae'r Arglwydd yn wahanol – 'ond yr wyt ti yr un, a'th flynyddoedd heb ddiwedd.' (Salm 102:27) Aiff hyd yn oed ymhellach yn adnod olaf y Salm trwy bwysleisio fod y Creawdwr cadarn, digyfnwid hwn hefyd yn rhoi diogelwch i blant ei weision. Meddyliwch am funud beth mae hyn yn ei olygu – er na all unrhyw un ohonom ddianc rhag y broses syrthiedig o edwino a dirywio dros amser, wrth ddod i berthynas newydd â'r Creawdwr gall pobl feidrol dderbyn diogelwch a sicrwydd ym mhresenoldeb Duw! Mae hyn i gyd yn bosib yn sgil dyfodiad y Creawdwr tragwyddol i mewn i'w greadigaeth pan wisgodd gig a gwaed dynol. A phan fu farw ac atgyfodi o'r bedd, enillwyd buddugoliaeth un waith am byth dros bechod, marwolaeth ac uffern. Wrth i ni gredu yng Nghrist, rydym yn derbyn etifeddiaeth a bywyd newydd 'fydd byth yn darfod, nac yn difetha nac yn diflannu.' (1 Pedr 1:4 Beibl.net) Diolchwn felly, waeth beth yw'n sefyllfa ansefydlog bresennol, fod gobaith bywiol a sicr i'w gael yn Iesu Grist – sydd yr un ddoe, heddiw ac am byth. (Hebreaid 13:8)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 7^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 10^{fed} ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 7.30.
- Iau – 11^{eg} ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 12^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.
- Mawrth – 9^{fed} ➤ Oedfa dechrau'r flwyddyn yn Saron am 7.00 gyda Dr Owain Edwards, Coleg y Bala yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.
➤ Cymdeithas Chwiorydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn cyfarfod yn Groes am 7.30 pryd y bydd Eira Jones yn rhoi sgwrs ar Plas Pren.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Bydd y Parch. Rhun Murphy yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Mawrth – 9^{fed} ➤ Cymdeithas Chwiorydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn cyfarfod yn Groes am 7.30 pryd y bydd Eira Jones yn rhoi sgwrs ar Plas Pren.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a Chyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Llun – 8^{fed} ➤ Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 7.00.
- Iau – 11^{eg} ➤ Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 7.00.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 9^{fed} ➤ Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yno am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 7^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 9^{fed} ➤ Cymdeithas Chwiorydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn cyfarfod yn Groes am 7.30 pryd y bydd Eira Jones yn rhoi sgwrs ar Plas Pren.
- Mercher – 10^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (7^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 14^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

I ddod

- **PANED A SGWRS** yn Festri Llansannan dydd Mawrth, Ionawr 16eg am 1.30.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr nos Iau, Ionawr 18fed. Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli yn 2018 a hynny rhwng Ebrill 2il – 5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y *Carmarthen Bay Holiday Park* ychydig filltiroedd i ffwrdd. Ewch i'r wefan www.llanw.org am fwy o fanylion a ffurflen archebu.

Manylion Cyswllt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
 - Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
 - Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*